

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2021

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2021.

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

20 Gorffennaf 2021

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio [Rheoliadau Diogelu Iechyd \(Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol\) \(Cymru\) 2020](#) ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol").

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Senedd

Dod i rym

Yn unol ag adrannau 4(1) ac 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd bod y Rheoliadau wedi dod i rym cyn bod modd iddynt gael eu gosod ac nad ydynt yn cydymffurfio â'r confensiwn 21 o ddiwrnodau. Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd y risg a berir mewn perthynas â'r coronafeirws ac yn enwedig straeniau sy'n amrywiolynnau o'r feirws hwnnw, oddi wrth deithwyr sy'n teithio i'r DU. Mae'r newidiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn parhau â'r ymagwedd gyffredin ar draws y pedair gwlad mewn perthynas â theithio rhyngwladol, ac yn sicrhau bod y cysondeb â Lloegr a'r gwledydd eraill yn parhau. Bydd y gyfraith yng Nghymru yn berthnasol i deithwyr waeth pa borthladd y byddant yn cael mynediad drwyddo. Felly pe na bai'r diwygiad a wnaed gan y Rheoliadau hyn wedi'i wneud ar frys, byddai teithwyr sy'n teithio i'r DU o Ffrainc Fetropolitanaid (tir mawr Ffrainc gan gynnwys ynys Corsica) yn gallu rhoi'r gorau i ynysu wrth gyrraedd Cymru.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Gwneir y Rheoliadau drwy ddiwynnu ar y pwerau yn adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf 1984. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y [Rheoliadau Teithio Rhyngwladol](#) yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

4. Diben y deddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Pan roedd y newidiadau arfaethedig ar gyfer esemptio pobl rhag gorfod gwneud yr ail brawf ar ôl cyrraedd ac ynysu yn cael eu hystyried ar gyfer pobl oedd wedi'u brechu'n llawn ac yn cyrraedd o wledydd ar y rhestr oren, roedd sefyllfa sgôr risg Ffrainc yn agored i'w ddehongli. Ar ôl gwneud penderfyniadau yn y cyfarfod COVID-O yr wythnos diwethaf, daeth data perthnasol i law a ddangosodd y byddai risg sylweddol i iechyd y cyhoedd drwy ganiatáu teithwyr o dir mawr Ffrainc (gan gynnwys Corsica) i ddod i Loegr heb orfod ynysu. Roedd Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd Llywodraeth y DU o'r farn bod gweithredu'r esemptiad hwn i bobl sy'n

cyrraedd o Ffrainc yn achosi cynnydd annerbyniol yn y perygl i iechyd y cyhoedd, ac felly cafodd y rheoliadau ar gyfer Lloegr eu paratoi i adlewyrchu na ddylai'r esemptiad fod yn berthnasol i deithwyr sy'n cyrraedd o Ffrainc. Penderfynodd Llywodraeth y DU y dylai'r risg a berir gan y teithwyr hynny gael ei rheoli drwy gadw'r trefniadau o gael dau brawf ar ôl cyrraedd ac ynysu am 10 diwrnod.

Nid oedd y rheoliadau cyfatebol ar gyfer Cymru yn cynnwys y ddarpariaeth hon, gan eu bod wedi'u gwneud cyn i'r data perthnasol ddod i law. Yn sgil y data hyn, mae Gweinidogion Cymru hefyd o'r farn bod y risgiau i iechyd y cyhoedd yn annerbyniol ac felly maent yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i ddileu'r esemptiadau teithio yn seiliedig ar frechu a gyflwyniad yn flaenorol mewn perthynas â theithwyr o Ffrainc Fetropolitanaid fel bod gofyn iddynt wneud dau brawf ar ôl cyrraedd ar ddiwrnod 2 a diwrnod 8 ac ynysu am 10 diwrnod.

Yn y Rheoliadau hyn, rydym hefyd yn manteisio ar y cyfle i wneud mân ddiwygiad technegol i gywiro gwall drafftio.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y diwygiadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

5. Ymgynghori

Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ni chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.